## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**Dyddiad:** 8 Mai 2008
**Amser:** 9.00am-11.00am
**Lleoliad:** 4B

## Agenda

**Datgan buddiannau**

**1. Materion sy'n effeithio ar Aelodau'r Cynulliad**

- **Cyflogi aelodau o'r teulu**

  Nodi'r papur ar gyflogi aelodau o'r teulu.
  *AC 2008 (03) – papur 1A*

- **Panel adolygu annibynnol i'r gefnogaeth a fydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol**

  Cyflwyno papur terfynol y panel diwethaf a phenderfynu ar gwmpas, dull ac amserlen ar gyfer y panel adolygu newydd.
  *AC 2008 (03) – papur 1B*

- **Y defnydd o adnoddau'r Cynulliad gan yr Aelodau**

  Trafod y papur sy'n edrych ar y ffordd orau o helpu a chynghori'r Aelodau am y defnydd o adnoddau.
  *AC 2008 (03) – papur 1C*

**2. Materion sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol**

- **Cynllunio'r Gyllideb 2009/10**

  Trafod y papur sy'n cynnig strategaeth ar gyfer cyllideb 2009-10 ac yn trafod cynigion sydd ar y gweill.
  *AC 2008 (03) – papur 2A*

- **Y diweddaraf am reoli risg a buddiannau**

  Rhoi gwybod am y cynnydd diweddaraf wrth ddatblygu cofrestri risg a'r trefniadau monitro ac adrodd sydd wedi'u cynnig.
  *AC 2008 (03) – papur 2B*

- **Adroddiad blynyddol 2007/8**

  Trafod Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2007/8.
  *AC 2008 (03) – papur 2C*

- **Deddfwriaeth Cymru ar-lein**

Trafod y dewisiadau ar gyfer cyflwyno ein deddfwriaeth ar-lein.
*AC 2008 (03) – paper 2D*

**3. Polisïau Comisiwn y Cynulliad**

- **Cydraddoldebau**

Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r Arolwg Cydraddoldebau Staff, casgliadau'r adroddiad ar yr adolygiad allanol o'n harferion recriwtio sy'n ymwneud â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r cynnydd wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldebau Sengl.
*AC 2008 (03) – papur 3A*

- **Adroddiad ar gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Trafod yr adroddiad blynyddol ar gydymffurfio.
*AC 2008 (03) – papur 3B*

**4. Adroddiad y Bwrdd Rheoli**

- **Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**

Trafod adroddiad y Bwrdd Rheoli sy'n cynnwys y cynnydd yn erbyn Amcanion Strategol y Comisiwn, gweithgareddau a digwyddiadau allweddol ac adroddiad ariannol.
*AC 2008 (03) – papur 4A*

**5. Materion i'w nodi**

Mae'r papurau a'r ohebiaeth a ganlyn wedi dod i law ac wedi'u cyhoeddi rhwng cyfarfodydd.
*AC 2008 (03) – papur 5A, gohebiaeth gan Helen Mary Jones AC ynghylch codi ymwybyddiaeth am Gomisiynydd Plant Cymru a hawliau plant. Atodiad A – ymateb Peter Black AC.*

*AC 2008 (03) – papur 5B, gohebiaeth gan Graham Smith, Swyddog Rhanbarthol undeb Unite, ynghylch yr Adolygiad Annibynnol cyfredol o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad.*
*Atodiad A - ymateb William Graham AC.*

*Rhyddhau gwybodaeth sy'n ymwneud â threuliau Aelodau'r Cynulliad.*
Trafododd y Comisiynwyr y papur hwn ddechrau mis Ebrill. Cytunwyd ar y ddau argymhelliad yn y papur o fwyafrif, a hynny drwy ohebiaeth. Awgrymwyd hefyd y dylid cyhoeddi fersiwn o'r Atodiad i'r papur, sy'n cymharu gweithdrefnau'r Cynulliad â rhai Tŷ'r Cyffredin.

Sylwadau gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ar reoli perfformiad aelodau uwch o staff – Llythyr dyddiedig 1 Mai gan y Prif Weithredwr a'r Clerc.